

Meini Prawf Ariannu:

Cronfa Gymorth Penarlâg a'r Cylch

Bydd Cronfa Gymorth Penarlâg a'r Cylch yn darparu cymorth i unigolion ag adnoddau prin neu unigolion mewn argyfwng. Mae'r gronfa hefyd yn cynorthwyo grwpiau a sefydliadau sy'n cefnogi pobl sy'n agored i niwed.

Mae'r gronfa yn y gorffennol wedi cael ei defnyddio ar gyfer:

- Cyfarpar a gweithgareddau ar gyfer grwpiau cymunedol/elusennau Penarlâg sy'n gweithio gyda phobl agored sy'n agored i niwed sydd mewn angen
- Eitemau cartref hanfodol e.e. nwyddau gwyn, dillad gwely, carpedi ac ati
- Eitemau sy'n hanfodol er mwyn lleihau tlodi tanwydd a bwyd (e.e. parseli bwyd, blancedi, poteli dŵr poeth, dillad thermal, atgyweirio boeleri)
- Gwaith atgyweirio a/neu ailaddurno hanfodol
- Clybiau cinio, cydweithfeydd bwyd, gweithgareddau sy'n hyrwyddo cydlyniant cymunedol ac sy'n lleihau arwahanrwydd a thlodi

Grantiau ar gael

- Gall unigolion a sefydliadau wneud cais am grantiau **hyd at £750**

Pwy a all ymgeisio?

- Grwpiau a sefydliadau sy'n gweithio gyda phobl sy'n byw ym mhlwyf hynafol Penarlâg h.y. rhaid i'r prif fuddiolwyr hanu o'r plwyf.
- Unigolion sy'n byw ym mhlwyf hynafol Penarlâg

Mae plwyf hynafol Penarlâg yn cynnwys y wardiau modern canlynol:

Aston, Dwyrain Brychdyn, Gorllewin Brychdyn, Bwcle Pentrobin, Ewlo, Penarlâg, Mancot, Saltney Cyffordd yr Wyddgrug, Saltney Stonebridge, Sealand, Dwyrain Shotton, Shotton Uchaf, Gorllewin Shotton.

Sut i ymgeisio?

Cyn ymgeisio am grant i unigolion, mae'n rhaid i bob mudiad gofrestru gyda'r Sefydliad, drwy'r ffurflen gais sydd ar gael ar wefan Sefydliad Cymunedol Cymru a'i e-bostio i grants@communityfoundationwales.org.uk

Gall weithwyr cefnogol wedyn anfon ffurflen ymgais ar-lein ar ran ei hunain neu unigolyn.

Nodwch, os gwelwch yn dda:

- Ni fyddwn yn dyfarnu grantiau yn ôl-weithredol, hynny yw, am gostau a oedd eisoes wedi dod i'ch rhan cyn derbyn y llythyr yn cynnig grant a thelerau ac amodau wedi'u llofnodi
- Rhaid i ymgeiswyr allu dangos yr angen ariannol/cymdeithasol y bydd y grant yn ei ddiwallu
- Byddwn yn rhoi blaenoriaeth i ymgeiswyr nad ydynt wedi derbyn cymorth gan y Gronfa hon o'r blaen
- Mae'r gronfa yn ymateb i anghenion brys, gyda dyddiad cau misol, sef diwrnod olaf y mis.